CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 25ain GORFFENNAF 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr W Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mr John Pritchard a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones & Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mr Ian Owen & Mr Einion Parry Williams.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod llawn cyntaf gan y Cadeirydd.

1.2 Croesawyd yr aelodau newydd i'r cyfarfod ac fe arwyddwyd pob aelod y datganiad o dderbyn y swydd fel Cynghorydd ac ymrwymo a pharchu y côd ymddygiad.

1.3 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 CYFLWYNIAD GWAITH DŴR – PENTRE BERW.

2.1 Croesawyd Gwenan Davies & Catrin Jones o Ddwr Cymru a Paul Prior o Gwmni Morgan Sindall i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad llawn a cryno ganddynt gyda dogfennau am odditeu hanner awr o'r gwaith a bwriedir cychwyn yn Mis Medi ac fe cafodd pob aelod o'r Cyngor y cyfle i ofyn cwestiynnau perthnasol o'r cynllun iddynt. O'r trafodaeth, dangoswyd pryder mawr am y cyfnod y bydd Lon Collier ar gau ac hefyd y cynnig o ddargyfeirio llwybr arfaethedig dan sylw ac fe nodwyd yr hyn a ddywedwyd gan yr aelodau.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

3.1 Croesawyd y DDAU Cynghorydd Sirol newydd Mr Dafydd Roberts a Mr Eric Jones i'r cyfarfod. Nid oedd ganddynt llawer i adrodd ar hyn o bryd ond soniwyd am y pwysigrwydd ymateb i Ymgynghoriad Pac3 Wylfa ac fod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried newid eu strwythur er mwyn medru delio gyda materion tebyg i Horizon ac yn y blaen oherwydd ei fod yn bwysig i ddyfodol yr Ynys.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 27ain Mehefin 2017 yn gywir. (WRE/LJ) ar ol nodi y dylid cofnod 7.2 (arwydd Pentre Berw o Langaffo), wedi cyfeirio ato yn bellach ac NID agosach.

Arwyddo.....Tudalen 1.

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 **Ysgol Esceifiog – (cofnod 10.2)** nodwyd nad oedd yr uned/peiriant diffribiliwr wedi ei leoli yn yr Ysgol ar gael i pawb yn y pentref ar y funud.

6 ETHOL SWYDDOGION Y CYNGOR 2017 – 2018.

Etholwyd y canlynol:

6.1	Cadeirydd	–	Mrs Barbara McKeaveney.
6.2	Is Cadeirydd	–	Ms Linda Jones
6.3	Fforwm Cyswllt	-	Atal tan y cyfarfod nesaf.
6.4	Cynrychiolydd Un Llais Cymru	-	Mr Raymond Evans a Mr Derek Hughes.
6.5	Cynrychiolydd Llywodraethwyr yr Ysgol	-	Mr Ian Owen.

7 MATERION CAEAU CHWARAE.

7.1 Arwyddion y Caeau Chwarae – angen gosod yr arwyddion pan ar gael. Roedd Cyng Ian Owen wedi gofyn i Mr John Evans am osod y polyn newydd.

7.2 Gwaith Cynnal a Chadw – Gofeb, Gardd Mileniwm & Cae Chwarae Gaerwen Uchaf – roedd Cyng Ian Owen wedi darparu rhestr o waith cynnal a chadw sydd angen i'r tri safle – **Penderfynwyd y dylai'r Clerc anfon llythyrau allan i'r rhestr y contractwyr yn gofyn iddynt am ddyfnbris cyn penodi**. Diolchwyd i Cyng Ian Owen am ei waith yn y mater yma.

7.3 Lleoliad yr Hysbysfwrdd – angen trafod hyn cyn gosod. Cyng Ian Owen am gysylltu gyda Cyng John Pritchard er mwyn cytuno y lleoliad gorau..

7.4 Biniau Sgwar Cae Mawr / Gaerwen Uchaf – angen trafod yn y cyfarfod nesaf.

7.5 Tyrchod Daear – nodwyd y Clerc na ddylai datrys y broblem hyd nes bydd y plant wedi mynd yn nol i'r Ysgol er budd iechyd a diogelwch.

7.6 Chwyn Laddwr – roedd Cyng Ian Owen wedi gofyn i Mr Dafydd Hughes ymgymeryd a'r gwaith.

7.7 Torri Cloddiau – Cae Mawr – roedd Mr O G Jones wedi cwblhau'r gwaith yma.

7.8 Cloddiau Gaerwen Uchaf – roedd Cyng Ian Owen am drefnu pris cyn symud ymlaen.

7.9 **Clawdd Cae Peldroed** – nodwyd fod Mr O G Jones wedi cwblhau'r gwaith.

Arwyddo.....

8 MATERION LLWYBRAU.

8.1 **Llwybr yr Ynys –** nodwyd fod angen torri brigau ar hyd y llwybr – nodwyd fod Cyng Ian Owen wedi gofyn i Mr O G Jones am ymgymeryd y gwaith ac fod hyn mewn llaw. Nodwyd ei fod wedi methu mynd lawr y ffordd gyda tractor oherwydd car Sion Look ar ffordd.

8.2 **Mapiau Llwybrau Cyhoeddus –** gofynwyd i'r Clerc dosbarthu gopi o'r mapiau erbyn y cyfarfod nesaf.

9 MATERION PRIFFYRDD.

9.1 **Problemau Traffig ar hyd darn Lon Groes** – nodwyd fod cerbydau trwm ac uchel yn trafeilio ar hyd y darn o'r Gofeb i'r Cae Peldroed ac gan fod hyn yn cynnwys yr Ysgol (Llwybrau Diogelach I Ysgolion) wrth iddynt ddefnyddio Lon Graig – **Penderfyniad – dwyn sylw pryderon y Cyngor i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.**

9.2 **Arwydd Cyflymdra Lon Pentre Berw i Langaffo** – dangoswyd pryder gor-yrru ar hyd y Lon. **Penderfyniad – gofyn i'r Cyngor Sir ystyried symud arwydd 40mya yn agosach at Pentre Berw.**

9.3 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – nodwyd pryderon fod cerbydau yn parcio ger y safle ac yn atal y cyhoedd rhag defnyddio'r Blwch Post – **penderfyniad – anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn dwyn sylw atynt a gofyn iddynt anfon gorchymyn i berchnogion y cerbydau dan sylw.**

9.4 **Lon Ceint –** angen torri gweddill o'r gordyfiant.

9.5 **Mynedfa Parc Gwyddoniaeth** – angen gofyn sefyllfa diweddaraf ynghylch ar arwydd sydd wedi hollti ar ei hanner sydd wedi ei leoli ar yr A5152.

9.6 **Hen Safle Little Chef –** angen torri'r gordyfiant unwaith eto.

9.7 **Yr A5 ger Maes Hyfryd, Gaerwen –** cwyn fod cerbydau yn gor-yrru ac anfon llythyr perthnasol i'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

9.8 **Gorchymyn Traffig Trwodd Dros Dro (Croesfan Rheilffordd Gaerwen – Rhif 2 2017) –** nodwyd daw y gorchymyn i rym ar y 15ed o Orffennaf am 3 mis (disgwylir i'r gwaith ddigwydd mewn dau gam, y cyntaf rhwng 15/16 Gorffennaf a'r ail rhwng 22/23 Gorffennaf 2017)

10. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

10.1 Cais Bennu a oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn:
LLEOLIAD – Berw Uchaf, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais - 33C182F).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

10.2 Cais ol-weithredol ar gyfer Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD – Penrhyn Bach, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais – 33C237B).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

10.3 Cais Llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i annedd yn:
LLEOLIAD – Ashleigh House, Gaerwen – (Rhif Cais – 33C63C).
Penderfyniad : DIM SYLWADAU.

11. MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Mehefin 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

11.2 **Taliadau Mis Gorffennaf 2017.**

Rhif Siec.	**Taler**		**Disgrifiad**	**Swm**
201249 -	Mr O G Jones	-	Torri Llwybrau	£576.00
201250 -	Mr Dafydd Hughes	-	Torri Caeau Chwarae	£380.00
201251 -	Mr Dafydd Hughes	-	Torri Llwybr Rhif 16	£110.00

11.3 Nodwyd cerdyn wedi ei dderbyn oddiwrth Cangen yr Urdd yn diolch am rhodd y Cyngor Cymdeithas.

11.4 Nodwyd cerdyn wedi ei dderbyn oddiwrth CPDI y Gaerwen yn diolch am rhodd y Cyngor Cymdeithas.

12 GOHEBIAETH.

12.1 Rhybudd cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon – Un Llais Cymru – 28ain Mehefin 2017.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26ain MEDI 2017.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:35yh.